Sylwadau ar BBC iPlayer II: Ymgynghoriad Prawf Lles y Cyhoedd

Awst 2022

Mae TAC yn cynrychioli'r sector cynhyrchu teledu annibynnol yng Nghymru. Rydym yn croesawu'r cyfle i gyflwyno rhai sylwadau byr mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn.

Cwestiwn 1: Beth yw eich barn chi am werth cyhoeddus posibl ein cynigion ar gyfer argaeledd cynnwys BBC iPlayer, gan gynnwys i ba raddau y mae ein cynigion yn cyfrannu at genhadaeth y BBC i wasanaethu pob cynulleidfa drwy ddarparu cynnyrch unigryw o ansawdd uchel a gwasanaethau sy'n hysbysu, yn addysgu ac yn diddanu?
(a) **Cwestiwn 2:** Beth yw eich barn am y budd i gynulleidfaoedd sy'n gwylio BBC iPlayer, yn ogystal â'r effeithiau cymdeithasol a diwylliannol ehangach posibl?

- Rydym yn cydnabod bod y BBC am wneud y defnydd gorau o'r iPlayer er mwyn ymateb i ddisgwyliadau'r gynulleidfa a'i fod yn rhoi cyfle i'r cyhoedd gael mynediad at gynnwys maent wedi talu amdano.

- Serch hynny, mae'n gostus ac mae'n bryder os defnyddir gormod o adnodd y BBC i ariannu costau iPlayer ar draul gwasanaethau craidd y BBC a'r gyllideb gomisiynu teledu yn benodol, o ystyried y toriadau sylweddol mae'r BBC yn ei wynebu yn dilyn setliad diweddar Ffi'r Drwydded Deledu.

    - Mae datganiad yr ymgynghoriad fel a ganlyn yn destun pryder:

      "Byddwn yn gwneud dewisiadau anodd ynghylch teitlau a all fod yn llwyddiannus ar deledu llinol ond nad ydynt yn gwneud digon i ddenu gwylwyr at wasanaethau ar-alw"1

      Mae'n ymddangos y byddai hyn o bosib yn gwahaniaethu yn erbyn y gwylwyr hynny, yn enwedig ymhlith y boblogaeth hŷn, a allai barhau i wylio y rhan fwyaf neu'r cyfan o'u cynnwys yn fyw neu drwy flwch recordio digidol. Bydd felly cynnwys penodol a allai ddioddef yn annheg gyda'r dull newydd hwn, er gwaethaf apelio'n llwyddiannus at y demograffeg benodol hynny, felly ni fyddai'r rhan honno o'r gynulleidfa sy'n talu Ffi'r Drwydded yn cael ei gwasanaethu'n dda pe na bai cynnwys o'r fath yn cael ei ail-gomisiynu ar y sail nad oeddent yn perfformio'n dda ar iPlayer.

Cwestiwn 3: Pa effaith (gadarnhaol neu negyddol) yn eich barn chi allai ein cynigion ar gyfer BBC iPlayer eu cael ar gystadleuaeth deg ac effeithlon?
(a) **Cwestiwn 4:** A oes unrhyw gamau y gallem eu cymryd yn eich barn chi i leihau i'r eithaf unrhyw effeithiau negyddol posibl ar gystadleuaeth deg ac effeithlon neu i hyrwyddo effeithiau cadarnhaol posibl?

---

1 bbc-iplayer-ii-ymgynghoriad-prawf-lles-y-cyhoedd.pdf tud 14

- Wrth gydnabod bod trafodaethau yn cael eu cynnal ar y telerau masnach rhwng y BBC a PACT o ran y swm sy'n cael ei dalu i gynhyrchwyr am hawliau ychwanegol i osod eu cynnwys ar yr iPlayer ar ôl y 12 mis cyntaf, mae'n rhaid i'r cynhyrchwyr ddal ar yr hawl i fedru gwireddu gwir werth eu cynnwys yn y farchnad eilradd yn y DU. Mae hyn yn aml yn mynd tuag at ariannu peth o gostau cynhyrchu'r cynnwys, pan fo cynigion ariannol ar gyfer comisiynu yn aml yn gadael bwlch rhwng y ffi gomisiynu a gwir gost cynhyrchu. Gwyddom nad yw'r ffioedd ail ddefnydd ar Clic/ iPlayer gan S4C yn mynd yn agos at adennill rhan o'r gost o gynhyrchu cynnwys.

- Rhaid hefyd ei gwneud yn glir na ddylai'r iPlayer fod ar gael y tu allan i'r DU ar unrhyw adeg – byddai'n dinistrio'r gwerth eilradd ac yn sylfaenol groes i'r Telerau Masnach.

- Mae hefyd angen eglurdeb pellach ar y berthynas rhwng y BBC a BBC Studios (a ddylai fod yn gweithredu fel cwmni llwyr annibynnol fasnachol) – mae'r paragraff ar dudalen 18 yn bryder os yw'n cyfeirio at gynnwys gan gwmnïau annibynnol, neu os oes disgwyl i gwmnïau annibynnol ddilyn y llwybr hwn:

- *Yn drydydd, byddwn – drwy BBC Studios – yn parhau i fod â threfniadau masnachol i ddarparu rhaglenni i sianeli masnachol a gwasanaethau ar-alw, fel BritBox a UKTV."*[2]

- Yn olaf, byddem yn croesawu mwy o eglurder a fydd y BBC yn talu unrhyw ffi i'r cwmnïau cynhyrchu ar gyfer cyfresi fydd yn dod o'r archif. Mae'r ymgynghoriad yn cyfeirio at dalu deiliaid hawliau sylfaenol fel awduron ac actorion, ond nid yw'n sôn am y cwmnïau cynhyrchu.

[2] bbc-iplayer-ii-ymgynghoriad-prawf-lles-y-cyhoedd.pdf tud 18